Ysgoloriaeth Ddoethurol: Cerddoriaeth

Teitl yr ysgoloriaeth: 'Cyfraniad y Dr. Meredydd Evans a Mrs Phyllis Kinney i faes cerddoriaeth werin yng Nghymru'

Hyd yr ysgoloriaeth: 3 blynedd (llawn-amser) **neu** 6 mlynedd (rhan-amser)

Dyddiad cychwyn yr ysgoloriaeth: Hydref 1af (2019)

Gwerth ariannol yr ysgoloriaeth: Telir ffioedd y cwrs (3 neu 6 mlynedd) a thelir cyfraniad tuag at gostau byw yr unigolyn.

Ceisiadau am yr ysgoloriaeth: trwy lythyr a *Curriculum Vitae*. I'w cyfeirio at Wyn Thomas, Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG neu drwy ebost (w.thomas@bangor.ac.uk)

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 5.00 p.m., dydd Gwener, Mai 24ain (2019)

Partneriaid y cynllun: Yr Archif Gerddorol Gymreig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Aberystwyth) ac Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor

Proffil ymchwil yr Ysgol Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor: Y mae ymchwil a chyhoeddiadau'r Ysgol Cerddoriaeth ym Mangor yn arwydd o'i hymrwymiad i'r traddodiad yng Nghymru ac i'r ymgyrch i ledaenu arwyddocâd y traddodiad hwnnw i'r byd. Gweithreda'r Ysgol yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a hynny er mwyn dwyn agweddau gwahanol o faes cerddoriaeth Cymru i sylw cynulleidfa ehangach. Rhagwelir y bydd cyfran sylweddol o staff yr Ysgol yn rhan o'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (2021). Fel Ysgol arweiniol ym maes Cerddoriaeth, mae'r aelodau staff a'r myfyrwyr doethurol yn sylweddoli'r modd y mae ffrwyth a chynnyrch eu hymchwil yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnwys a chyfeiriad y modiwlau a ddysgir. Hyn sy'n peri fod Ysgol Cerddoriaeth, Bangor yn derbyn clod a chanmoliaeth ei Arholwyr Allanol a pharch arbennig gan y Wasg, y cyfryngau a'r cyhoedd yn ddiwahân a hynny mewn mesydd cerddorol fel Cyfansoddi (Pwyll ap Sion, Guto Puw), Cerddoriaeth mewn Iechyd a Lles (Gwawr Ifan), Cerddoreg (Stephen Rees, Pwyll ap Sion), Perfformio (Iwan Llewelyn Jones) a.y.b.,

Fel Ysgol rydym hefyd yn ymfalchïo yn llwyddiant ein cyn-fyfyrwyr a fu'n amlwg a gweithgar ym maes cerddoriaeth Cymru. Rydym yn cydnabod fod yr angen am gerddorion Clasurol o safon, gan gynnwys athrawon cerdd sy'n ysbrydoli ac yn dylanwadu ar y genhedlaeth ifanc yn aruthrol o bwysig. Wrth i gynnu ariannol y Llywodraeth effeithio ar statws a phwysigrwydd Cerddoriaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd y genedl, hyderwn y bydd Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor yn gadael ei hôl ar y traddodiad ac yn ddylanwad amlwg ar y maes i'r dyfodol.

Gyda chymorth ariannol hael Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y gwireddwyd cynllun *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont: Y Lolfa), tt. 444 yn 2018.

Casgliadau cerddorol y Llyfrgell Genedlaethol: Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru nid yn unig yn gartref diogel i'r gerddoriaeth ysgrifenedig gynharaf a erys o Gymru, ond hefyd yn casglu cyfansoddiadau a pherfformiadau diweddaraf gan ein cerddorion cyfoes. Mae'r Archif Gerddorol yn adnodd sy'n tyfu'n gyson: ychwanegir deunydd yn rheolaidd at y casgliadau, sydd eisoes yn cynnwys gweithiau gan gyfansoddwyr Cymreig clasurol a ddaeth i fri rhyngwladol fel Grace Williams, Daniel Jones, Alun Hoddinott a William Mathias.

Mae'r Llyfrgell yn ymfalchïo fod Archif Meredydd Evans a Phyllis Kinney, sy'n cynnwys gwaith ymchwil oes i gerddoriaeth draddodiadol, wedi dod i'r Llyfrgell ac yn ddiolchgar i'r teulu am eu haelioni yn rhoi'r casgliad i'r Genedl. Mae'r Archif yn cynnwys dros 150 bocs: yn bapurau cerddorol, ffeiliau ar athroniaeth, llenyddiaeth ac ymgyrchoedd iaith, mynegeion i gerddoriaeth draddodiadol, a gohebiaeth blynyddoedd.

Blaenoriaeth Rhaglen yr Archif Gerddorol fydd rhoi mynediad at yr adnodd newydd hwn i bawb sydd am ddarganfod mwy am ganu gwerin, a chreu mynediad ato ar-lein mewn ffurf ddigidol. Mae Archif Merêd a Phyllis yn adlewyrchu eu gwybodaeth eang am ganu traddodiadol ac yn arwain at astudiaethau pellach i gasgliadau eraill y Llyfrgell megis casgliadau J. Lloyd Williams (un o sylfaenwyr Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru) a Maria Jane Williams yr arloesydd cofnodi caneuon gwerin.

Eleni, yn 2019, bydd y Llyfrgell yn nodi can-mlwyddiant geni Meredydd Evans gydag arddangosfa arbennig rhwng Mehefin a diwedd y flwyddyn, a gweithgareddau cysylltiol.

Cefndir:

Yn 2009 cyhoeddodd y diweddar Ddr. Meredydd Evans y gyfrol, *Hela'r Hen Ganeuon* (Talybont: Y Lolfa, 2009) 245tt. sy'n ymdriniaeth fanwl o waith a chyfraniad rhai o gasglyddion cerddoriaeth draddodiadol a chanu gwerin Cymru rhwng diwedd y 18fed a chychwyn yr 20fed ganrif. Canolbwyntir yn bennaf ar weithgaredd unigolion fel

- Iolo Morganwg yn y 18fed/19eg ganrif
- John Jenkins ('Ifor Ceri) yn y 18fed/19eg ganrif
- Maria Jane Williams yn y 19eg ganrif
- Nicholas Bennett yn y 19eg ganrif
- John Thomas ('Llewelyn Alaw') yn y 19eg ganrif
- John Lloyd Williams ar ddechrau'r 20fed ganrif

Yn dilyn sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Llangollen ym 1906 a gwaith arloesol y Dr J.Lloyd Williams a'r Canorion yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, gwelwyd bri mawr ar gasglu a chofnodi alawon gwerin gyda chymorth y ffonograff (Thomas Edison) a daeth ymdrechion rhai

fel y Dr. Mary Davies ('Mair Mynorydd'), Ruth Herbert Lewis (Plas Penuchaf, Caerwys), Grace Gwyneddon Davies (Llanwnda), Jennie Williams (Aberystwyth) a Dora Herbert Jones (Gregynog) a'u tebyg i danio brwdfrydedd y Cymry yn y maes. Yr unigolion hyn fu'n bennaf gyfrifol am dorri cwys newydd yn hanes cerddoriaeth frodorol y genedl a'u casgliadau cyhoeddedig hwy fu'n sail i adfywio'r traddodiad ar lwyfannau eisteddfod, cyngherddau, nosweithiau llawen ac ar aelwydydd y genedl. Oni bai am gyfraniad y rhain a'u hymgais i gywain a lledaenu'r alawon, mae'n bur annhebyg y byddai Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru wedi parhau i weithredu hyd at heddiw. Yn ystod ail-hanner y ganrif, cyfrannodd ysgolheigion fel y Dr. Meredydd Evans i lwyddiant y Gymdeithas, a phan drosglwyddwyd ei holl bapurau ef (ynghyd â chasgliad helaeth ei briod, Mrs. Phyllis Kinney) i ofal yr Archif Gerddorol Gymreig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Mai 2017 a phenodi archifydd i'w catalogio, fe sylweddolwyd fod cryn ddeunydd cerddorol a hanesyddol yma nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen (cynnyrch y traddodiad llafar ydynt) ac mai cyfrifoldeb y Llyfrgell (gyda chymorth partneriaid allanol) oedd dwyn y deunydd hwn i olau dydd.

Nod a bwriad yr Ysgoloriaeth PhD (a noddir gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru) fydd canolbwyntio ar agweddau penodol o fyd casglu alawon gwerin yn ail hanner yr 20fed a'r 21ain ganrif yng Nghymru gan roi sylw arbennig i'r canlynol:

- Alawon traddodiadol a fersiynau amrywiol o alawon gwerin anghyhoeddedig a gasglwyd ac a gofnodwyd gan y Dr. Meredydd Evans a Phyllis Kinney
- Alaw a chaneuon y 'Byd a'r Betws'
- Alawon y carolau traddodiadol – a phrif ffynonellau'r alawon hynny
- Alawon yr Anterliwtiau Cymreig (alawon i'w canu ac alawon dawns)

Bwriedir cynnig yr Ysgoloriaeth (3 blynedd) ar delerau tebyg i ysgoloriaethau'r 'Collaborative Doctoral Awards' The Arts & Humanities Research Council. Bydd yr ymchwilydd yn derbyn goruchwyliaeth a chyfarwyddyd gan aelod o staff o Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor ond bydd y myfyriwr/y fyfyrwraig wedi ei leoli/lleoli am dair blynedd yn y Llyfrgell yn Aberystwyth ac yn derbyn cymorth gan aelodau staff y sefydliad hwnnw yn ogystal. Rhagwelir y bydd ffrwyth yr ymchwil yn sail i dri math gwahanol o gynnyrch, sef:

a. Astudiaeth ysgolheigaidd o gyfraniad Meredydd Evans a Phyllis Kinney i fyd cerddoriaeth werin Cymru fydd yn arwain at radd PhD.,

b. Allbynnau cerddorol (e.e. casgliadau o ganeuon gwerin anghyhoeddig ynghyd â nodiadau, catalogau o brif ffynonellau alawon a chaneuon traddodiadol Cymreig) fel atodiadau i'r traethawd PhD fydd yn gyfrwng i ddwyn casgliad Merêd a Phyllis i sylw'r cyhoedd, ond a fydd hefyd yn ateb gofynion gradd ddoethuriaeth.

c. Gweithgaredd cyhoeddus (e.e. arddangosfeydd neu berfformiadau) a fydd yn gyfrwng i hyrwyddo'r papurau hyn a chyfraniad neilltuol y ddau a fu'n ddyfal yn eu dwyn ynghyd.

Disgwylir i'r ymchwilydd dderbyn hyfforddiant gan Y Llyfrgell a'r Brifysgol. Disgwylir i'r ymchwilydd:

- fynychu cynadleddau ymchwil a thraddodi darlithiau cyhoeddus ar y maes
- gyfrannu i gyfres ddarlithiau (amser-cinio) y Llyfrgell Genedlaethol a chyfres o Seminarau Ymchwil yr Ysgol Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor
- ymaelodi â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru, TRAC a.y.b., a chyfrannu i'w gweithgarwch drwy gyhoeddi a/neu berfformio
- ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd i gynnwys casgliad papurau Merêd a Phyllis
- uwch-lwytho deunydd cerddorol i safle-we y Llyfrgell er mwyn ennyn diddordeb cerddorion ac annog ymchwil pellach i'r maes.

Cyfarwyddwyr yr ymchwil:

Wyn Thomas (Cymrawd Ymchwil, Prifysgol Bangor) – Prif gyfarwyddwr y cynllun PhD.

Yr Athro Pwyll ap Sion, Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor - Dirprwy-gyfarwyddwr y cynllun PhD

Mrs. Nia Daniel (Rheolwr Rhaglen, Yr Archif Gerddorol Gymreig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru) - Cyfarwyddwraig ar ran Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Dr. Maredudd ap Huw (Curadur Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru) – Cyfarwyddwr ar ran Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cyfweliadau: Cynhelir cyfweliadau ar gyfer yr ysgoloriaeth hon yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Aberystwyth) ym mis Mehefin 2019.

Manylion pellach: Y mae croeso i ddarpar-ymgeiswyr gysylltu gyda Wyn Thomas, Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor – w.thomas@bangor.ac.uk neu â Mrs Nia Daniel, Llyfrgell Genedlaethol Cymru – niw@llyfrgell.cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY